# Arweiniad ar Gwblhau Cais i Gyngor Sir y Fflint am Wneud Gwaith ar Goed Wedi'i Diogelu

**Cyflwyniad**

Lluniwyd yr arweiniad hwn i helpu perchnogion coed a'u hasiantau i gyflwyno ceisiadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, sef y rhan o'r Cyngor sy'n goruchwylio gwarchodaeth coed.

Mae'r arweiniad yn cynnwys gwybodaeth o'r testun Help[1] gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyno ceisiadau i wneud gwaith ar goed ac o ganllaw arfer da'r diwydiant coedyddiaeth: BS3998:2010 *Tree Works - Recommendations*.

Mae gan Lywodraeth Cymru ffurflen gais safonol (1 APP) y mae'n rhaid ei defnyddio i gyflwyno gwahanol fathau o geisiadau datblygu. Rhaid hefyd defnyddio ffurflen 1 APP i gyflwyno cais am ganiatâd i wneud gwaith ar goeden sy'n destun **Gorchymyn Diogelu Coed** (GCC).

Wrth wneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar goeden sy'n destun GDC, er mwyn i'ch cais fod yn un dilys, rhaid hefyd darparu rhai manylion penodol. Mae darparu'r manylion hyn yn ofyniad cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ac yn ofyniad sylfaenol.



Defnyddir yr un ffurflen i gyflwyno hysbysiad **Ardal Gadwraeth** (o dan Adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i wneud gwaith ar goeden sydd o fewn ardal gadwraeth ac sydd hefyd yn ddigon mawr i ddod o dan y rheolaethau.

Gallwch ddarganfod os yw coeden wedi'i diogelu drwy Orchymyn Diogelu Coed neu os ydi hi o fewn Ardal Gadwraeth ddynodedig yma.

[1] Cais i wneud gwaith ar goed (Fersiwn Sc31 F1.1 Cymru)

Gellir cwblhau a chyflwyno ceisiadau ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fel arall gellir lawrlwytho ffurflen 'Cais i Wneud Gwaith ar Goed' o wefan Llywodraeth Cymru, llenwi'r copi papur a'i bostio gyda'r dogfennau ategol i'r Adran Gynllunio yn y cyfeiriad ar waelod y ffurflen.

Mae gosodiad y ffurflen ar-lein a'r ffurflen i'w lawrlwytho yn wahanol ond mae'r ddwy yn gofyn am yr un wybodaeth.

Wrth lenwi'r cais ar-lein efallai y byddwch yn ei gweld yn ddefnyddiol agor fersiwn pdf o'r ddogfen mewn ffenestr wahanol fel y gallwch gyfeirio ati wrth i chi lenwi'r ffurflen.

Gellir hefyd dod o hyd i wybodaeth gyffredinol am goed wedi'u diogelu ar wefan Cyngor Sir y Fflint yma.

**Diogelu Coed er Amwynder Gweledol a Buddiannau Eraill.**

Yn ogystal â darparu amwynder gweledol mae coed hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddiannau eraill i gymdeithas, waeth pwy sy'n berchen arnynt. Mae coed yn gwella ansawdd yr aer, yn cymedroli tymheredd yr aer, yn lleihau llifogydd, yn dal carbon, yn amsugno llygredd ac yn cynyddu bioamrywiaeth, yn enwedig yn ein trefi.


Dangosodd astudiaeth yn Wrecsam bod coed y dref yn darparu gwerth £1.44 miliwn o fanteision i'r ecosystem bob blwyddyn[2]. Dangosodd ymchwil yn Canada bod prisiau eiddo mewn ardaloedd preswyl incwm uchel lle mae coed aeddfed 10-15% yn uwch o gymharu â'r un mathau o ardaloedd heb goed[3].

Mewn cydnabyddiaeth o'r manteisio y mae coed yn eu darparu mae gan Gyngor Sir y Fflint Gynllun Coed a Choetiroedd Trefol sydd â thargedu i gynyddu nifer y coed mewn ardaloedd trefol.

Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu ymdriniaeth y cyngor o ran rheoli coed ar ei dir ei hun a thiroedd eraill drwy weithrediad polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol.

**Ceisiadau Ar-lein**

Gallwch ddechrau cais ar-lein drwy fynd i gofrestru ar y wefan, rhoi cyfeiriad e-bost a chreu cyfrinair. Bydd hyn yn caniatáu i chi gadw eich cais fel drafft a'i olygu cyn ei gyflwyno .


Manylion y cais

| | |
|---|---|
| **Eich cyfeirnod:** | Coedon Golygu |
| **Math o gais:** | Gwaith ar goed: Coed mewn adw Coed |
| **Awdurdod Lleol:** | Cyngor Sir y Fflint |
| **Cyfeirnod:** | PP-08689753 |
| **Statws:** | Drafft fersiwn1 |
| **Diweddarwyd ddi...** | 01 Mai 2020 - 10:19 |

**Lleoliad y Goeden/Coed**

Dyma lle mae bonyn y goeden. Efallai y bydd canghennau coeden yn ymestyn dros ardd ond bod ei bonyn mewn eiddo arall. Os yw'r bonyn ar y ffin rhwng dau eiddo dylid rhoi manylion y ddau eiddo. Mae lle i roi'r manylion hyn yn o blwch Disgrifiad ar waelod y cwestiwn.


**Lleoliad y coed**

Nodwch gyfeiriad y safle lle saif y goeden/coed (cyfeiriad llawn os yn bosibl)

Rhif Ôl-ddodiad


Enw

[2] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. Coed Trefol Wrecsam – adnodd anhygoel sydd o fudd i ni i gyd

[3] Effaith Coed Aeddfed ar Brisiau ai a Dewisiadau Preswyl yn Ninas Quebec

### Manylion yr Ymgeisydd a'r Asiant

Fel arfer yr ymgeisydd fydd perchennog y goeden, neu o leiaf y sawl sydd eisiau gwneud y gwaith ar y goeden. Nid oes raid i chi fod yn berchennog  ar y goeden/coed dan sylw i wneud cais.





Yr asiant yw'r sawl a benodir gan yr ymgeisydd i wneud y cais ar eu rhan. Nid yw'n angenrheidiol defnyddio asiant a dylid gadael Manylion yr Asiant yn wag os nad oes asiant wedi'i benodi. Os caiff yr adran Manylion Asiant ei llenwi yna bydd yr holl ohebiaeth gan gynnwys yr hysbysiad o benderfyniad yn cael ei anfon i'r cyfeiriad hwnnw yn hytrach na chyfeiriad yr ymgeisydd.

Gall ymgeisydd ofyn i gontractwr coed gyflwyno cais ar eu rhan. Y Contractwr Coed fyddai'n llenwi'r adran 'Manylion Asiant' yn yr achos hwnnw ac yn derbyn yr holl ohebiaeth cysylltiedig â'r cais. (D.S. Ni ddylai ymgeisydd roi manylion y contractwr yn yr adran Manylion Asiant os ydynt yn bwriadu i'r contractwr wneud y gwaith coed corfforol yn unig).

### Adnabod y Goeden/Coed

Mae'n rhaid darparu cynllun clir (fel sydd i'w weld ar y dde) wrth wneud cais i wneud gwaith ar goeden sy'n destun GDC. Dylai'r cynllun ddangos union leoliad y goeden/coed mewn perthynas â nodweddion yr eiddo, er enghraifft ffiniau, adeiladau, garejis, priffyrdd ac eiddo cyfagos.




Plan showing location of lime - T1

Dylid marcio enw'r ffordd neu'r stryd  a rhoi rhif neu enw'r tŷ os yn berthnasol. Dylid labelu'r goeden/coed a nodir ar y cynllun a dylai fod yn amlwg ei bod/eu bod yn berthnasol i'r manylion a roddwyd yn y Disgrifiad o'r Gwaith. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bwriedir gwneud gwaith ar fwy nag un coeden. Gellir marcio bonyn coeden gyda phaent, tâp neu label os yw'n rhan o grŵp o goed ac o bosibl yn anodd ei dangos ar gynllun.

Gellir defnyddio'r cynllun GDC os yw'n ddigon i ddangos yn glir y goeden/coed a fydd yn destun y gwaith arfaethedig. Ble bo hynny'n briodol dylai rhif coeden ar y cynllun adlewyrchu rhif y goeden yn y GDC (e.e. *T1, T2, T3)* neu wneud nodiadau ychwanegol er mwyn dangos y goeden/coed a fydd yn destun y gwaith arfaethedig o fewn y dynodiadau GDC amgen ar y cynllun e.e. G1 – G2 W3).

Dylid hefyd darparu cynllun i gefnogi hysbysiad o fwriad i wneud gwaith ar goed mewn Ardal Gadwraeth.

**..... a Disgrifiad o’r Gwaith**

Argymhellir bod perchnogion coed yn gofyn cyngor contractwr coed cyn cyflwyno cais i wneud gwaith ar goed fel y gellir ystyried y gwahanol ddewisiadau ar gyfer tocio neu gwympo. Dylai unrhyw docio arfaethedig fod yn sympathetig gan barchu siâp y goeden, nodweddion y rhywogaeth a rheolaeth y goeden yn y gorffennol.

Rhaid pennu’r gwaith tocio yn glir yn y Disgrifiad o’r gwaith ac nid yw defnyddio termau fel tocio a thorri’n ôl ac ati yn ddigon penodol ar eu pen eu hunan. Gallai ceisiadau heb ddigon o fanylion arwain at oedi penderfyniad neu mewn rai achosion wrthod ceisiadau oherwydd diffyg gwybodaeth.



Gall ceisiadau heb fod yn ddigon manwl hefyd olygu na fydd penderfyniadau ynghylch hysbysiadau Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu gwneud o fewn y cyfnod o chwe wythnos gan arwain at gyflwyno Gorchymyn Diogelu Coed i rwystro’r gwaith rhag mynd yn ei flaen.

Manylebau Enghreifftiol: tocio hyd at 2.5 metr oddi y canghennau sy'n wynebu cefn yr eiddo fel bod pellter o o leiaf 4.5 rhwng y goeden a'r wal frics, gan gadw siâp crwn naturiol fel y mae'r llinell goch yn ei dangos.

*Torri’r canghennau i uchder o 4.5m uwchben yr ardd.*

*Cwtogi cangen hir sy’n fforchio o’r bonyn tua 7 metr uwchlaw’r ddaear ac sydd oddeutu 250mm o ddiamedr ar y pwynt hwn yn ôl 3m.*

*Torri 1.5 metr oddi ar y canghennau i'r dwyrain a'r gorllewin gan adael lled changhennau hollgynhwysfawr o 7 metr. Torri 1.5m oddi ar y brigau uchaf fel bod y goeden yn 17 metr o daldra.*

Mae’n annhebygol iawn y caniateir gwaith a fyddai’n lleihau gwerth amwynder y goeden yn sylweddol oni bai bod rheswm gorlethol am hynny (e.e. iechyd neu ddiogelwch neu adeilad yn ymsuddo).

Yn unol â safon gyfredol y diwydiant (BS3998:2010 - Gwaith ar Goed - Argymhellion) **ni ddylai** ceisiadau i wneud gwaith ar goed roi'r mesuriadau fel canrannau oherwydd nad yw’r fath fesuriadau’n gywir.

Dylai cynnig i docio brig coeden felly nodi, drwy gyfeiriad at hyd neu uchder, beth sydd i aros neu faint o bellter fydd yna rhwng y goeden ac adeilad ar ôl y tocio. Er mwyn cynorthwyo â chwblhad y gwaith gellir hefyd nodi faint o hyd sydd i'w dorri oddi ar y canghennau. Os bydd yn helpu i ddisgrifio’r gwaith arfaethedig gellir ychwanegu ffotograffau gyda nodiadau ond ni ddylid eu defnyddio ar eu pen eu hunain i ddangos maint y tocio arfaethedig oherwydd mai dim ond darlun dau ddimensiynol o'r gwaith y byddant yn ei roi.

Os oes bwriad i dynnu cangen benodol dylai’r fanyleb ddisgrifio’n glir yn union lle mae’r gangen ar y goeden er mwyn osgoi unrhyw amwysedd. Gellir defnyddio ffotograffau i ddibenion cyfeirio. Gellir hefyd nodi uchder, cyfeiriad a/neu ddiamedr y gangen.

Dilynwch y ddolen isod i gael gwybodaeth sy'n egluro'r derminoleg gyffredin a'r diffiniadau perthnasol i waith ar goed gan y Gymdeithas Goedyddiaeth.

https://www.trees.org.uk/Help-Advice/Public/A-brief-guide-to-tree-work-terminology-and-definit

**Rheswm dros y Gwaith**

Mae'n ofyniad gorfodol i ddatgan y rheswm/rhesymau wrth gyflwyno cais i wneud gwaith ar goeden sy'n destun GDC.[4] Mae'r adran hon yn ddewisol wrth gyflwyno hysbysiad Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag os yw'r rhan hon yn cael ei llenwi bydd yn helpu'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddeall pam bod y gwaith yn cael ei gynnig.

Lle dywedir mai iechyd a/neu ddiogelwch yw'r rheswm dros wneud y gwaith arfaethedig ar goed/goeden, rhaid darparu adroddiad gan arbenigwr coedyddiaeth CYN y bydd cais yn cael ei dderbyn fel un dilys. Yn yr un modd, os yw'r rheswm dros wneud y gwaith yn ymwneud ag ymsuddiad honedig bydd yn ofynnol darparu adroddiad llawn gan beiriannydd neu syrfewr, ynghyd ag adroddiad gan weithiwr coed arbenigol cyn y gellir derbyn cais fel un dilys. Efallai y codir ffi am ddarparu adroddiad.

Gellir uwchlwytho adroddiadau i'r wefan fel dogfennau ategol ar dudalen hafan Eich Cais.

Cynghorir ymgeiswyr i ystyried y rhesymau dros wneud y gwaith yn ofalus wrth lenwi'r ffurflen.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd modd rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y rhan hon o'r ffurflen.

**Perchnogaeth Coeden**

Os yw cyfeiriad perchennog y goeden yn wahanol i le mae'r goeden wedi'i lleoli dylid rhoi'r manylion hynny. Argymhellir yn gryf bod rhywun sy'n gwneud cais i wneud gwaith ar goeden rhywun arall yn cysylltu a pherchennog y goeden i drafod y gwaith cyn gwneud y cais. Os dywedir bod y goeden yn perthyn i barti arall bydd yr awdurdod cynllunio lleol fel arfer yn defnyddio'r manylion perchnogaeth i ymgynghori â'r parti hwnnw er mwyn iddynt gael cyfle i wneud sylwadau ar y cynnig. Efallai y byddai'n fuddiol i'r ymgeisydd gyflwyno llythyr gan berchennog y goeden yn datgan eu bod yn cytuno i'r gwaith gael ei wneud. Dylai'r llythyr gan berchennog y goeden gynnwys manylion y gwaith sydd i'w wneud i'r coed er mwyn osgoi unrhyw amwyster.

Os nad yw'r perchennog yn darparu manylion perchnogaeth y goeden bydd yn bosib o hyd i'r awdurdod cynllunio lleol wneud penderfyniad am y cais yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd. **Ni fydd** yr awdurdod cynllunio lleol yn sefydlu pwy sy'n berchen ar goeden fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae ffynonellau o wybodaeth ar-lein y gallant o bosibl helpu i ddarganfod pwy sy'n berchennog ar dir y mae coeden yn sefyll arno. Gellir defnyddio Y Gofrestrfa Tir a chronfa ddata Ceisiadau Cynllunio Sir y Fflint. Ffynhonnell arall o wybodaeth yw pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal.

Mae'n bwysig nodi bod ceisiadau GDC a hysbysiadau Ardaloedd Cadwraeth yn benderfyniadau a wneir dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 felly nid yw hynny'n rhoi hawl mynediad i dir rhywun arall i wneud gwaith heb eu caniatâd.

[4] Restr 10 g arweiniad ar y ffurflen gais safonol (1 App) a dilysu ceisiadau, Llywodraeth Cymru

**Gorchymyn Cadw Coed neu Fanylion Ardal Gadwraeth**

Dylid nodi teitl a chyfeirnod y GDC yn ôl y gofyn (e.e. *Tir yn Ffordd Derwen, Sychdyn, Rhif 245 (2004).*

Neu nodi enw'r Ardal Gadwraeth (e.e. *Nannerch)*

Lle mae coeden yn destun GCD a hefyd o fewn Ardal Gadwraeth dylid cwblhau'r cais fel cais i wneud gwaith ar goeden sy'n destun GDC[5] yn unig.

Gallwch ddarganfod a yw coeden yn destun Gorchymyn Diogelu Coed/o fewn Ardal Gadwraeth yma

**Gweithiwr/Aelod yr Awdurdod**

Mae'r rhan hon o'r ffurflen gais yn orfodol a dylid ei llenwi yn unol â'r arweiniad yn y ffenestr Help.

**Datganiad**

Cwblhewch fel sy'n ofynnol.

**Dogfennau Ategol Eraill**

Dylid uwchlwytho cynllun lleoliad y coed gydag unrhyw adroddiadau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r cais am wneud gwaith ar goed. Fel arall, gellir postio dogfennau ategol at yr awdurdod cynllunio lleol (Noder: mae'n bosibl y bydd gwefan Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi uwchlwytho tair dogfen hyd yn oed os nad oes angen gwneud hynny, os felly cynghorir chi i uwchlwytho'r cynllun coed fwy nag unwaith neu atodi llun o'r goeden.)

**Ffioedd a Thaliadau**

Nid oes ffi am gyflwyno cais Gorchymyn Diogelu Coed na Hysbysiad Ardal Gadwraeth Bydd angen cadarnhau hyn ar y sgrin Ffioedd a Thaliadau.

**Cyflwyno'r Cais**

Cyn cyflwyno eich cais GDC neu hysbysiad Ardal Cadwraeth sicrhewch eich bod wedi llenwi'r ffurflen yn gywir a bod y dogfennau cywir wedi'u hatodi.

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais yn ffurfiol bydd y manylion i'w gweld yn y porwr gwe a bydd hyn yn cynnwys cyfeirnod Porth Cynllunio (e.e. PP-08644636). Dylid defnyddio'r cyferinod hwn ar unrhyw ohebiaeth rhyngoch chi a'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Dylech hefyd dderbyn e-bost o gadarnhad a fydd hefyd yn cynnwys y cyfeirnod Porth Cynllunio.

**Rhagor o Wybodaeth**

Arboricultural Association a International Society of Arboriculture - dau o'r prif gyrff contractio coed masnachol.

[5] Adran 211 (2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990